

Geirfa:

Llywodraethiant a Chyllid

Aelodaeth

Aelodau sefydliad.

Amcan

Amcan yw cam mesuradwy i'w cymryd i gyrraedd nod neu strategaeth benodol.

Amcanion

Amcanion sefydliad yn ôl ei gyfansoddiad.

Amcanion elusennol

Yr amcanion sy'n cael eu diffinio yng Nghyfraith Cymru a Lloegr fel rhai elusennol.

Arian wrth gefn

Arian wrth gefn yw elw sydd wedi'i glustnodi, neu ei neilltuo, i'w ddefnyddio ar gyfer diben penodol yn nes ymlaen.

Arian wrth gefn anghyfyngedig / rhydd

Incwm sydd ar gael yn rhwydd i'w wario ar unrhyw un o ddibenion yr elusen.

Arian wrth gefn cyfyngedig

Dim ond ar gyfer dibenion penodol y gellir defnyddio arian wrth gefn cyfyngedig. Mae arian wrth gefn cyfyngedig yn rhoi sicrwydd i roddwyr y bydd eu cyfraniadau'n cael eu defnyddio yn y ffordd roedden nhw wedi'i dewis.

Ased

Rhywbeth gwerthfawr sydd piau sefydliad.

Ased clo

Asedau na ellir eu rhannu i'r aelodau.

Ased sylweddol

Ased gwerthfawr, megis adeilad.

Asedau net

Asedau gros llai rhwymedigaethau.

Atebolrwydd cyfyngedig

Lle mae atebolrwydd ariannol person yn cael ei gyfyngu i swm penodol.

Benthyciadau

Arian a fenthycwyd yn gyfnewid am dalu llogau.

Benthyciadau diogel

Benthyciad sydd wedi'i ddiogelu yn erbyn eiddo, fel morgais.

Benthyciad diwarant

Benthyciad nad yw wedi'i ddiogelu yn erbyn eiddo.

Blwyddyn Gyllidol

Blwyddyn gyllidol yw'r cyfnod o 12 mis y mae sefydliad yn ei ddefnyddio i adrodd ar ei gyllid.

Budd cyhoeddus / cymunedol

Budd cyhoeddus, gofyniad statws elusenol. Hefyd yn ganolog i Gwmnïau Buddiannau Cymunedol a sefydliadau buddiannau cymunedol Diwydiannol a Darbodus.

Buddsoddiad ecwiti

Codi arian drwy werthu cyfranddaliadau.

Buddsoddwyr

Sefydliadau ac unigolion sy'n trosglwyddo arian i sefydliad gan ddisgwyl rhywbeth yn ôl.

Busnes Corfforedig

Endid cyfreithiol ynddo'i hun.

Bwrdd / Pwyllgor Rheoli

Grŵp o unigolion sy'n gyfrifol yn y pen draw am reolaeth strategol eich sefydliad (gweler dogfen strwythur Sefydliad).

Cenhadaeth / Datganiad Cenhadaeth

Cenhadaeth yw mynegiant, gan ei arweinydd, o'u dyheadau a'u bwriad ar gyfer y sefydliad. Defnyddir datganiad.

Cenhadaeth gymdeithasol

Diben anfasnachol menter gymdeithasol.

Corfforiad

Dod yn sefydliad corfforedig.

Cronfeydd rhydd / cronfeydd anghyfyngedig

Incwm sydd ar gael yn rhwydd i'w wario ar unrhyw un o ddibenion yr elusen.

Cronfeydd wrth gefn Dynodedig

Cronfeydd wrth gefn yw cyfran o'r cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

Cyfrifon

Cofnod o'ch incwm a'ch gwariant dros gyfnod (blwyddyn fel arfer). Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol i gwmnïau ac i elusennau. Gallai grwpiau heb eu cofrestru ddewis cadw log incwm a gwariant.

Cyfrifon Archwiliedig

Cyfrifon sydd wedi'u gwirio gan gyfrifydd cymwysedig.

Cymdeithasau Budd Cymdeithasol

Busnesau sy'n cael eu rhedeg er budd y gymuned ehangach, gan ail fuddsoddi elw yn y gymuned.

Cwmni a eithriwyd

Cwmni nad yw'n gallu bod yn gwmni buddiannau cymunedol o dan y rheoliadau presennol.

Cwmni Buddiannau Cymunedol

Cwmni Buddiannau Cymunedol - dyfais gyfreithiol a grëwyd ar gyfer mentrau cymdeithasol heblaw elusennau.

Cwmni Cyfyngedig gan Gyfranddaliadau

Cwmni cyfyngedig gan gyfranddaliadau.

Cwmni Cyfyngedig gan Warant

Cwmni cyfyngedig gan warant.

Cyfalaf Cyfranddaliadau

Ffigwr enwol sy'n cael ei ddefnyddio i gynrychioli cyfanswm asedau net.

Cyfansoddiad

Dogfen lywodraethol sefydliad, i gwmnïau mae'n cael ei galw'n Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, i Gymdeithasau Cydweithredol mae'n cael ei galw'n eu Rheolau.

Cyfanswm Adnoddau i Mewn

Ystyr 'cyfanswm adnoddau i mewn' yw holl dderbyniadau'r elusen o bob ffynhonnell, gan gynnwys grantiau, rhoddion, incwm buddsoddiadau a derbyniadau masnachu.

Cyfethol

Penodi cyfarwyddwr, fel rheol, drwy benderfyniad cyfarwyddwyr eraill sefydliad.

Cyllid i ariannu dyledion

Codi arian trwy fenthycu.

Cymal Diddymu

Y cymal yn eich dogfen lywodraethu sy'n disgrifio beth fydd yn digwydd i unrhyw arian dros ben neu asedau pe byddai sefydliad yn cael ei ddiddymu.

Cyfarwyddwyr

Y grŵp o unigolion sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am reolaeth strategol Cwmni Buddiannau Cymunedol neu Gwmni (gweler y ddogfen strwythur sefydliad).

Cyfranddalwyr

Perchnogion cwmni cyfyngedig gan gyfranddaliadau.

Cyfrifoldeb

Bod yn atebol.

Cyfrifon heb eu harchwilio

Nid yw cyfrifon heb eu harchwilio wedi bod trwy'r broses o ddilysiad ac adolygiad annibynnol. Mae eich cyfrifon ariannol yn dal heb eu harchwilio nes eu bod wedi cymeradwyo gan archwilydd ardystiedig allanol.

Cyllid ecwiti

Codi arian drwy werthu cyfranddaliadau.

Cymdeithasau Cydweithredol

Cymdeithasau sy'n cael eu rhedeg er budd eu haelodau, gan rannu'r elw rhwng yr aelodau.

Cymdeithasau cyn-cychwyn

Cymdeithasau diwydiannol a darbodus a gofrestrwyd cyn 1 Awst 2014.

Dalen Incwm a Gwariant

Cofnod / log o'r arian a dderbynnir ac a werir dros gyfnod penodol (blwyddyn, fel arfer). Gallai grwpia gwirfoddol heb eu cofrestru gadw un yn lle set o gyfrifon. Dylai gynnwys unrhyw arian a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol.

Diddymu

Dod â sefydliad i ben.

Difidend

Elw'n cael ei rannu gan gwmni.

Dogfen Lywodraethu

Fe'i gelwir hefyd yn gyfansoddiad i elusennau neu grwpiau gwirfoddol, i gwmnïau, mae'n cael ei galw'n Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, i Gymdeithasau Cydweithredol fe'i gelwir eu Rheolau.

Eiddo

Tir, adeiladau ac asedau eraill.

Elusen a eithrir

Elusen sydd wedi'i heithrio o'r dyletswydd i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae'r rhain yn cynnwys elusennau yn gysylltiedig â'r lluoedd arfog a'r Cymdeithasau Sgowtiaid a Geidiaid.

Elusen wedi'i heithrio

Elusen sydd wedi cael ei heithrio rhag cofrestru, fel arfer oherwydd bod gan reoleiddiwr arall awdurdodaeth. Mae yna restr benodol o sefydliadau sy'n elwa o'r eithriad hwn yn y ddeddfwriaeth berthnasol. O dan ddeddf 2006, daw'r eithriad hwn i ben a bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r elusennau sydd wedi'u heithrio gofrestru yn y dyfodol.

Elw / arian dros ben

Incwm sefydliad ar ôl tynnu treuliau.

Grantiau

Rodd o arian.

Grŵp gwirfoddol

Grŵp o unigolion (a elwir weithiau'n sefydliad gwirfoddol, cymdeithas diddordeb cyffredin, neu gymdeithas) sy'n cytuno, fel arfer fel gwirfoddolwyr, i ffurfio corff (neu sefydliad) i gyflawni diben.

Gwerthoedd

Mae gwerthoedd sefydliadol yn disgrifio moeseg neu egwyddorion craidd y bydd sefydliad yn cadw atyn nhw, beth bynnag a ddigwydd.

Is-sefydliad masnachu

Cwmni gydag unig aelod sy'n elusen. Mae'r is-sefydliad masnachu'n cael ei sefydlu fel arfer i gynnal gweithgareddau masnachu nad yw elusen yn gallu ei wneud ei hunan.

Llogau yn ôl perfformiad

Llogau ar fenthyciad sy'n cael eu cyfrifo yn ôl perfformiad sefydliad.

Masnachu diben pennaf

Masnachu i hyrwyddo amcanion elusennol elusen.

Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu

Cyfansoddiad cwmni cenhadaeth i egluro, yn syml ac yn gryno, ei ddiben(ion) dros fodoli.

Nodau

Nodau yw datganiad o fwriad. Fel arfer, maen nhw'n cael eu hysgrifennu yn eithaf cyffredinol. Maen nhw'n dangos beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni.

Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Polisi arian wrth gefn

Mae polisi arian wrth gefn yn egluro wrth arianwyr, presennol a darpar, a rhanddeiliaid eraill pam fod elusen yn cadw swm penodol o arian wrth gefn.

Pwyllgor / Bwrdd Rheoli

Grŵp o unigolion sy'n gyfrifol yn y pen draw am reolaeth strategol eich sefydliad (gweler dogfen strwythur sefydliad).

Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol

Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol.

Rheoliadau

Rheoliadau'r Llywodraeth sy'n rheoleiddio sefydliad.

Rhodd Cymorth

Y rhyddhad treth sydd ar gael ar roddion o arian parod i elusen.

Rhyddhad ardrethi

Y rhyddhad ardrethi sydd ar gael i elusennau ac weithiau sefydliadu gwirfoddol a chymunedol.

Rhyddhad treth

Rhyddhad rhag talu trethi.

Sefydliad anghorfforedig

Math o endid cyfreithiol heb atebolrwydd cyfyngedig.

Sefydliad Corfforedig Elusennol

Ffurf gorfforedig a grëwyd gan Ddeddf Elusennau 2006 yw Sefydliad Corfforedig Elusennol. Mae sawl agwedd o Sefydliad Corfforedig Elusennol yn debyg i rai cwmni cyfyngedig trwy warant, ond dim ond ar gyfer sefydliad sy'n un elusennol y gellir defnyddio Sefydliad Corfforedig Elusennol.

Swyddfa'r Trydydd Sector

Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y Trydydd Sector.

Treth Gorfforaeth

Y dreth sy'n cael ei thalu gan gwmnïau ar eu helw.

Treth stamp

Y dreth a delir ar drafodion eiddo.

Tŷ'r Cwmnïau

Y cofrestrydd ar gyfer pob cwmni.

Unig Fasnachydd

Unigolyn mewn busnes ar ei ben ei hun.

Y Comisiwn Elusennau

Rheoleiddiwr elusennau.

Ymddiriedolaeth

Math o endid cyfreithiol heb atebolrwydd cyfyngedig.

Ymddiriedolwr

Grŵp o unigolion sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am reolaeth strategol elusen (gweler y ddogfen strwythur sefydliad).